# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Vaughan Hughes (Is-gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, J Arwel Roberts, Dafydd Roberts a Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Richard Griffiths, Eric Wyn Jones, Carwyn Jones, Robert Llewelyn Jones.<br><br>Cynghorwyr Llinos M Huws ac R Meirion Jones (Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a wahoddwyd i'r cyfarfod) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**2 CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2019/20**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig ar gyfer Ebrill 2019 i Mawrth 2020.

Nodwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth, 2019, wedi cymeradwyo adroddiad ar y Strategaeth Datblygu Aelodau am 2019/2022. Roedd yr adroddiad hwn yn manylu ar y Cynllun Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig am 2019/20 sy'n cymryd i ystyriaeth y mewnbwn a gafwyd gan Arweinyddion y Grwpiau yn dilyn yr Adolygiadau Datblygiad Personol ynghyd â mewnbwn gan Uwch Swyddogion.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol fod y rhaglen yn darparu fframwaith amlinellol ar gyfer cyflawni hyfforddiant gyda rhai o'r elfennau'n cario drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r rhaglen ddatblygu'n berthnasol i Aelodau Etholedig ynghyd ag Aelodau Cyfetholedig ac Aelodau Lleyg ble mae hynny'n briodol. Mae'r Awdurdod eisoes yn darparu cymorth E-ddysgu er mwyn annog hunan-ddatblygiad ond cafwyd rhai problemau gyda'r Porth E-ddysgu cyfredol sy'n cael ei gynnal gan y GIG. Nododd fod cyfleuster llwyfan hyfforddiant y Gronfa Ddysgu wedi cael ei gomisiynu i gefnogi cyfleusterau hyfforddiant ar-lein. Mae'r llwyfan hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gan nifer o Awdurdodau eraill yng

Ngogledd Cymru.  Gwnaed cais i Aelodau'r Pwyllgor hwn gael eu penodi i arbrofi gyda chyfleuster y Gronfa Ddysgu.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y prif faterion isod:-

- Dywedwyd bod angen i'r holl Aelodau Etholedig dderbyn hyfforddiant ar bolisïau cynllunio oherwydd eu bod yn mynychu'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn eu rôl fel aelodau lleol pan fo ceisiadau cynllunio penodol yn cael eu trafod yn eu ward etholiadol nhw. Nodwyd bod hyfforddiant ar y broses gynllunio yn y gorffennol wedi bod yn sylfaenol a bod angen hyfforddiant gloywi ar yr Aelodau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y cynllun yn amlygu'r angen i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gael hyfforddiant rheolaidd, fodd bynnag, gwneir nodyn ar wahân i'r holl Aelodau Etholedig gael cynnig hyfforddiant ar faterion Cynllunio fel a nodir yn y cynllun;
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod angen amlygu hyfforddiant mandadol er mwyn sicrhau bod Aelodau Etholedig yn ymwybodol o bwysigrwydd hyfforddiant o'r fath. Dywedwyd hefyd bod angen, ble bynnag y mae hynny'n bosibl, trefnu cyrsiau hyfforddiant naill ai cyn neu ar ôl cyfarfodydd eraill yn y Cyngor;
- Nododd yr Aelodau bod angen annog Swyddogion yn y Cyngor i ddarparu sesiynau hyfforddiant i Aelodau Etholedig oherwydd eu bod ag ymwybyddiaeth o gonfensiynau/materion lleol.  Dywedodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol bod Swyddogion ble bynnag y mae hynny'n bosibl yn cael cais i ddarparu sesiynau a'n bod yn ogystal yn ymgynghori gydag awdurdodau cyfagos i ddarparu sesiynau hyfforddi dwyieithog ar gyfer Aelodau Etholedig.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Argymell i'r Cyngor llawn ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Aelodau am 2019/20 fel fframwaith ar gyfer Datblygu Aelodau;**
- **Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud unrhyw newidiadau pellach fel sy'n briodol;**
- **Bod y Cynghorwyr Eric W Jones, J Arwel Roberts a Nicola Roberts yn cael eu penodi i arbrofi gyda chyfleuster hyfforddi'r Gronfa Ddysgu unwaith y bydd ar gael.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am

**CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**